Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

Amser: 13.30 – 14.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5868

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Mick Antoniw AC (Cadeirydd) Suzy Davies AC Carwyn Jones AC Dai Lloyd AC
Tystion:	Chris Humphreys, Llywodraeth Cymru Julie James AC, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Lisa James, Llywodraeth Cymru Eoghan O'Regan, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Rachael Davies (Dirprwy Glerc) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd ymddiheuriadau. Nododd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn newid ei enw i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dilyn penderfyniad yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Ionawr 2020.

2 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).

3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 SL(5)489 – Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â'r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

4 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

4.1 SL(5)490 – Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ieir Bwyta ac Ieir Bwyta at Fridio

Trafododd y Pwyllgor y Cod a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

5 Papur(au) i'w nodi

5.1 Llythyr gan y Llywydd: Tynnu Offerynnau Statudol yn ôl

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Llywydd.

5.2 Llythyr gan y Prif Weinidog: Rhaglen OS Ymadael â'r UE

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

7 Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

8 Trafod ymchwiliad posibl yn y dyfodol

Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad posibl yn y dyfodol a chytunodd i ystyried y mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol.